

POLICE AND CRIME PANEL
PANEL HEDDLU A THROSEDD



PANEL HEDDLU A THROSEDD GOGLEDD CYMRU

GWRANDAWIAD CADARNHAU – 20 MEDI 2021

**PENODIAD ARFAETHEDIG DIRPRWY GOMISIYNYDD HEDDLU A THROSEDD
GOGLEDD CYMRU GAN Y COMISIYNYDD HEDDLU A THROSEDD GOGLEDD
CYMRU**

Cefndir

Gwnaed yr adroddiad hwn yn unol â Pharagraff 10, Atodlen 1 (yr Atodlen) o Ddeddf Diwygio'r Heddlu a Chyfrifoldeb Cymdeithasol 2011 (y Ddeddf).

Penodiad Arfaethedig Dirprwy Gomisiynydd Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru gan y Comisiynydd Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru

Cynhaliodd Panel Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru (y Panel) wrandawriad cadarnhau yn unol â Pharagraffau 10 ac 11 o'r Atodlen, fel rhan o raglen cyfarfod y Panel a gynhaliwyd yn Siambr y Cyngor, Bodlondeb, Conwy, ddydd Llun, 20 Medi 2021.

Ystyriodd y Panel lythyr gan Gomisiynydd Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru yn argymhell Mr. Wayne Jones i swydd y Dirprwy Gomisiynydd Heddlu a Throsedd.

Yn unol â Pharagraff 11 yr Atodlen, roedd yr ymgeisydd arfaethedig yn bresennol yn y cyfarfod, ar gyfer y diben o ateb cwestiynau mewn perthynas â'r penodiad. Darparodd Mr. Jones drosolwg i'r Panel o'i yrfa gyda'r heddlu a'r rhesymau pam yr oedd yn teimlo y gallai wneud gwahaniaeth yn y rôl o Ddirprwy Gomisiynydd Heddlu a Throsedd.

Adolygodd y Panel y penodiad arfaethedig a'r meini prawf a ddefnyddiodd y Comisiynydd i benderfynu ar ei enwebiad ar gyfer y swydd. Fe wnaeth y Panel hefyd gydnabod bod proses recriwtio agored wedi cael ei gyflawni a bod Cadeirydd y Cyd-Bwyllgor Archwilio wedi bod yn rhan, a ddarparodd sicrwydd annibynnol.

Cydnabu'r Panel bod Mr. Jones wedi cael gyrfa sylweddol mewn plismona gweithredol, wedi gwasanaethu fel Swyddog Heddlu am dros 30 mlynedd a chyrraedd rôl Ditectif Brif Uwch-Arolygydd am yr wyth mlynedd ddiwethaf. Cydnabu'r Panel y byddai Mr Jones yn darparu cymorth ychwanegol angenrheidiol i'r Comisiynydd, yn sgil ei brofiad a dealltwriaeth o wasanaeth yr heddlu, llywodraethu ac atebolrwydd yr heddlu.

Felly, roedd y Panel yn teimlo bod Mr Jones yn bodloni'r meini prawf a ddefnyddiwyd i asesu addasrwydd yr ymgeiswyr ar gyfer penodiad gan **AWGRYMU**:

Bod Mr. Wayne Jones yn cael ei benodi fel Dirprwy Gomisiynydd Heddlu a Throsedd.

21 Medi 2021

</LAYOUT_SECTION>